

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

6pm, Dydd Mawrth 20fed o Dachwedd 2018

Ysgol Fusnes, Coleg Cambria, Llaneurgain

Presennol: Gareth Hughes, Gill Stephen, Nia Wyn Jones, Elgan Davies-Jones, Gareth Lloyd, Bethan Williams, Gareth Williams, Maiwenn Berry, Gwen Smith, Anna Prysor Jones, Rhian Davies, Ffion Whitham, Jeni Harris, Yvon Jones, Bob Gaffey, Richard Roberts.

1. Croeso gan y Cadeirydd

Croesawyd pawb yn gynnes i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Gareth Hughes, gan nodi bod 2017-18 wedi bod yn flwyddyn arbennig i'r Fenter. Blwyddyn Magi Ann medd rhai! Dyma'r flwyddyn wrth gwrs ble enillodd prosiect apiau Magi Ann wobwr yng nghategori addysg y Gwobrau Loteri Cenedlaethol. Roedd y Cadeirydd yn hynod falch i weld fod y staff wedi penderfynu 'cenhadu' yn dilyn y seremoni trwy fynd â Magi Ann ar ymweliad arbennig i'r Ysgol Gymraeg yn Llundain. Daeth a llwyddiant Prosiect Magi Ann â llwyth o sylw i'r Fenter yn y wasg genedlaethol gyda sawl cyfweiliad ar Radio Cymru a mwy nag un ymddangosiad ar Heno ar S4C. Roedd proffil uchel y prosiect hefyd wedi denu sylw nifer o wleidyddion gan gynnwys Eluned Morgan, Gweinidog y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Roedd ymweliad y gweinidog â Pharti Magi Ann yn Ysgol Bro Alun yn hynod o bwysig i godi ymwybyddiaeth am ein gwaith ar lawr gwlad ac i ddangos y dylanwad ac effaith mae'r Mentrau Iaith yn gallu ei gael yn lleol. Diolchodd y Cadeirydd yn daer i'r staff, y Prif Swyddog a'r cyfarwyddwyr i gyd am eu holl waith caled ac ymroddiad dros y flwyddyn, gan ymfalchïo fod y flwyddyn gyntaf ers uniad swyddogol y ddwy Fenter (Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor) i ffurfio Menter Iaith Fflint a Wrecsam wedi bod yn un llwyddiannus tu hwnt.

2. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y canlynol: Harri Bryn Jones, Marian Jones, Trefor Lloyd-Morris, Emma Lloyd, Phil Lovell, Siôn Aled Owen, Huw Alun Roberts, Llinos Roberts, Stephen Rule, Chris Baglin, Eirian Conlon a Frances Jones

3. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Chwefror 9fed, 2018

Derbyniwyd y Cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2016-17 fel rhai cywir. Cynigiwyd gan GW ac eiliwyd gan YJ.

4. Materion yn codi

Mae sôn yn y cofnodion am y bwriad o benodi cyfarwyddwyr ymgysylltiol - hynny yw unigolion gydag arbenigeddau gwahanol a fydd o fantais i'r Fenter, ond sydd ddim yn gyfarwyddwyr llawn. Mae hyn wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda Huw Alun Roberts sydd am sefyll i lawr fel cyfarwyddwr, ond yn mynd i barhau i gynrychioli'r Fenter ar bwyllgor CSGA y Fflint a Gareth Williams sydd yn rhannu o'i arbenigedd ym maes addysg fel bo angen.

5. Derbyn Adroddiad y Prif Swyddog

Cyflwynodd Gill Stephen, y Prif Swyddog, yr Adroddiad Blynyddol i'r cyfarfod, gan dynnu sylw at y ffaith ein bod yn dathlu blwyddyn gyntaf o briodas fodlon rhwng Menter Iaith Sir y Fflint a Menter Iaith Maelor. Nododd bod gwaith caled wedi ei wneud i sicrhau presenoldeb cytbwys yn

y ddwy sir, a bod pawb yn gweithio o'r un lleoliad wedi esgor ar gydweithio effeithiol rhwng y tîm sydd yn bwydo ac yn hybu gwaith ei gilydd.

Tynnodd y Prif Swyddog sylw at arolwg diweddar wedi ei gynnal gan Mentrau Iaith Cymru yn holi staff y Mentrau Iaith ar draws Cymru ynglŷn ag amodau gwaith a boddhad unigolion yn eu swyddi. Yn gyffredinol mae nifer y staff sydd yn hapus a bodlon yn eu gwaith yn hynod o uchel. Adlewyrcha hyn fod y staff sy'n gweithio i'r Mentrau yn gwneud hynny gan eu bod yn credu yn y gwaith, gan rannu nod ac amcanion y Fenter ac yn teimlo eu bod yn llwyddo i wneud gwahaniaeth. Derbyniwyd yr adroddiad gyda diolch.

6. Derbyn Cyfrifon hyd at Fawrth 31ain 2018

Cyflwynwyd y cyfrifon gan y Swyddog Busnes a chyda chymorth Richard Roberts y cyfrifydd.

Tynnwyd sylw at y rhestr o'r grantiau ac Incwm (tud 15) sy'n dangos bod rhan helaeth o'r incwm yn dod o gronfa graidd Llywodraeth Cymru, gyda pheth arian ychwanegol yn dod trwy Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cronfa Glyndŵr, Mentrau Iaith Cymru (prosiect Cymraeg Byd Busnes), incwm gan bartneriaid wrth gydweithio ar brosiectau, ac incwm o weithgareddau (gan gynnwys gwerthiant nwyddau Magi Ann i'r Mentrau eraill), yn ogystal â gwobr o £5,000 gan y Loteri Cenedlaethol.

Mae rhan helaeth o'r treuliau yn mynd tuag at gostau cyflogau a gweinyddol, megis rhent, offer swyddfa a theithio. Yn amlwg mae gwariant hefyd yn mynd ar brosiectau. Y rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer rhain yn dod o grant Llywodraeth Craidd Cymru neu incwm a godir trwy'r gweithgareddau. Tynnodd RR sylw at yr incwm sydd wedi dod o gyfuno'r ddwy Fenter. Nodir bod £11,076 wedi dod i'r cyfrif gan Fenter Iaith Maelor. Roedd oddeutu £9,000 o hwn yn arian (cyn cymhwyso) a £3,000 yn asedau, megis offer a dodrefn swyddfa. Oherwydd rheolau cyfrifon sydd wedi newid yn helaeth ers y ddwy flynedd diwethaf, rhaid oedd dangos y cyfalaf yma fel incwm, er nad yw mewn gwirionedd yn arian newydd, ond yn hytrach trosglwyddiad o asedau Menter Maelor draw i Fenter Iaith Fflint a Wrecsam. Nodwyd hefyd bod £3,735 o grant Arian i Bawb ac £8,000 o grant Cymraeg Byd Busnes wedi eu bancio ond ni ddangosir hwy yng nghyfrifon eleni gan eu bod wedi gohirio i'w gwario yn y flwyddyn ariannol nesaf. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

Nodwyd y posibilrwydd y bydd y cyllid gan Cyngor Sir y Fflint yn lleihau yn y dyfodol gan eu bod yn wynebu toriadau mawr. Tynnodd GW sylw at y posibilrwydd o ddenu cyllid trwy GWE, gan ei fod yn ymwybodol o Fentrau eraill sydd yn denu nawdd trwy'r cynllun hwn. GStephen i holi Iwan Hywel Mentrau Iaith Cymru gan ei fod yn eistedd ar bwyllgor GWE ar ran y Mentrau.

7. Ethol Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Yn ystod y flwyddyn, mae Huw Alun Roberts wedi datgan ei fwriad o sefyll i lawr fel cyfarwyddwr (a Trysorydd y Fenter) ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018-19, er ei fod am barhau fel Cyfarwyddwr Ymgysylltiol a chynrychioli'r Fenter ar bwyllgor CSGA Cyngor Sir y Fflint. Diolchodd y Cadeirydd am gefnogaeth a gwaith HAR - "dyn y sŷms"- dros y blynyddoedd, gan nodi ei fod wedi bod yn gyfarwyddwr gyda'r Fenter ers y cychwyn cyntaf, bydd colled fawr ar ei ôl! Roedd gweddill y cyfarwyddwyr yn hapus i barhau yn eu swyddi ac ail-etholwyd pawb yn unfrydol. GStephen a GSmith i edrych ar ail eirio'r darn yn y Memorandwm sydd yn sôn am ail-ethol cyfarwyddwyr a hyd eu gwasanaeth.

8. Unrhyw Fater Arall

- i) LLEOLIAD SWYDDFA- Mae peth ansicrwydd yn parhau am ddyfodol lleoliad swyddfa'r Fenter ers i ni dderbyn rhybudd y byddai'n rhaid symud allan o adeilad Corlan yn y flwyddyn newydd. Rydym wedi bod yn edrych ar leoliad ym Mwcle. Yn y cyfamser, mae sôn am brynwyr newydd ar gyfer Corlan, fyddai'n dymuno parhau i gadw'r adeilad fel ag y mae, ac i'r tenantiaid presennol aros. Serch hynny mae sôn y byddan nhw'n gwneud gwelliannau i'r adeilad ac yn codi rhent o'r herwydd. Mae GStephen yn aros am gadarnhad o faint bydd y codiadau er mwyn eu cymharu gyda chostau symud (sydd yn uchel).
- ii) EITEMAU BWRDD CYFARWYDDWYR – Soniodd GL yr hoffai weld yr eitemau canlynol yn cael trafod yn fanwl yn y Bwrdd Cyfarwyddwr nesaf: a) Dyfodol yr Is-bwyllgor Ieuenctid ac a oes potensial i benodi Swyddog Ieuenctid, b) Targedau'r Fenter - am iddo fod yn awyddus i'r Cyfarwyddwyr gyfrannu mwy wrth osod a gweithredu targedau'r Fenter. Cafwyd cadarnhad bod yr eitem hon eisoes ar agenda'r cyfarfodydd bwrdd chwarterol nesaf ond nododd bod y Fenter wedi cael gadarnhad gan y Llywodraeth yn ystod mis Hydref fod cyfnod y Grantiau Hybu a Hwyluso'r Defnydd y Gymraeg presennol wedi ei ymestyn am gyfnod o ddwy flynedd arall hyd at Mawrth 2021. c) PQASSO – holodd GL hynnt yr Is-bwyllgor PQASSO. Nododd GSmith bod gwaith wedi bod yn mynd rhagddo yn y swyddfa i gasglu'r dogfennau perthnasol i'w gosod ar y dashfwrdd digidol. Amcangyfrifwyd ein bod tua 46% o'r ffordd yno. Unwaith y bydd popeth ar y dashfwrdd, bydd cyfle i'r Is-bwyllgor PQASSO wirio a'i derbyn.
- iii) NIFEROEDD ADDYSG GYMRAEG SIR Y FFLINT - Nododd GW bod 6% o ddisgyblion Sir y Fflint yn derbyn Addysg Gymraeg ar hyn o bryd, a bod pryder mawr fod y niferoedd yma yn disgyn (i'r gwrthwyneb i batrymau yn y rhan fwyaf o ardaloedd eraill yng Nghymru sy'n mwynhau cynnydd mewn niferoedd addysg Gymraeg). Cytunodd GStephen fod hyn yn fater o bryder a bod y Fenter yn gweithio'n ddyfal i hyrwyddo Addysg Gymraeg dros y ddwy Sir mewn ymdrech i ateb i'r her hon. Nododd hefyd ein bod wedi cynyddu'r nifer o targedau sydd yn cefnogi Plant a Phobl Ifanc sy eisoes mewn Addysg Gymraeg yn sylweddol, gan eu dyblu. Nododd hefyd bod datblygiadau ar y gweill gyda'r Fforwm Iaith Sirol. Y gobaith yw ffurfioli'r Fforwm (fel ei bod yn debycach i'r strwythur yn Ynys Môn), fel y bydd y partneriaid yn chwarae rhan allweddol yn bwydo mewn i Strategaeth 5 mlynedd a Phwyllgorau CSGA y Cynghorau Sir.

9. Dyddiad ac awgrymiadau am leoliad y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol nesaf

Ni phenodwyd dyddiad, ond cytunwyd i gynnal y cyfarfod nesaf fis Tachwedd 2019 rhywle yn ardal Wreccsam.